# Cyngor Sir Caerfyrddin
# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2022-2023

Mae’r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau’r Cynghorydd a enwir isod am y cyfnod o fis Mai 2022 tan fis Mai 2023 (Blwyddyn y Cyngor). Fe’i darperir er gwybodaeth i etholwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad yw barn y Cynghorydd ac nid yw’n adlewyrchu barn Cyngor Sir Caerfyrddin o reidrwydd.

| **Y Cynghorydd: Terry Davies** | **Adran Etholiadol: Tyisha** |
|---|---|

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i chi am fy nghefnogi yn yr etholiad diwethaf fel eich Cynghorydd Sir.
Mae'r flwyddyn wedi hedfan, ac ni allaf gredu'r heriau enfawr yr ydym wedi'u hwynebu ers COVID. Fe wnaeth yr heriau ariannol a ragwelwyd ein taro'n galed, ac roedd Wcráin a'r prisiau tanwydd wedi gwaethygu'r sefyllfa. Dechreuodd tîm y Cyngor Sir yn Sir Gaerfyrddin lunio'r gyllideb anoddaf erioed, gan ymgynghori â'r cyhoedd yn ei chylch er mwyn cael gwybod pa flaenoriaethau y dylid eu diogelu yn eich barn chi, wrth i Sir Gaerfyrddin wynebu toriad o dros £22 miliwn yn y gyllideb. Mae ein polisi o wrando ac ymgysylltu, gan rymuso'r bobl yn fwy nag erioed o'r blaen, wedi bod yn dda iawn ac wedi ystyried eich barn a'ch pryderon. Buom yn gweithio drwy bob cyllideb i sicrhau arbedion ac i amddiffyn pobl sy'n gweithio'n galed sydd â theulu a morgeisi a'r henoed sy'n talu'r dreth gyngor.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn heriol i'r sir ond yn werth pob munud pan welaf gynnydd a newid er gwell i ni yn Nhyisha, Llanelli, a'r Sir. Rwy'n ddiolchgar iawn am eich cymorth a'ch cefnogaeth. Hefyd rhaid canmol swyddogion a staff gweithgar y Sir sy'n gweithio y tu ôl i'r llenni gan gyflawni 110% i ni.

Byddaf yn ymdrechu i weithio fel eich Cynghorydd Sir etholedig hyd eithaf fy ngallu. 84% yw fy mhresenoldeb i eleni, gan fy mod wedi colli dau gyfarfod oherwydd Covid. Y flwyddyn hon rwyf wedi gweithio dros 40 awr yr wythnos ar gyfartaledd.

| **Rhan 1: Rôl a Chyfrifoldebau** |
|---|
| ***Pwyllgorau'r Cyngor:*** |
| |
| Y Cyngor Llawn |
| Y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio |
| Y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol |
| Y Pwyllgor Cynllunio |
| Y Panel Ymgynghorol ynghylch Trechu Tlodi |
| |
| ***Cofnod Presenoldeb:*** Cofnod presenoldeb - Cyng. Terry Davies (llyw.cymru) |

| **Rhan 2: Gweithgareddau Etholaeth** |
|---|
| • Rwy'n rhan o banel prosiect trawsnewid Tyisha gwerth £9.3 miliwn sy'n llywio'r prosiect hwn - cofnod presenoldeb o 100%.<br>• Rwy'n mynychu cyfarfod Grŵp Gweithredu Cymunedau Mwy Diogel Glan y Môr a Thyisha bob mis - cofnod presenoldeb o 100%.<br>• Rwyf hefyd yn cefnogi Pwyllgor Canolfan Deuluol Sant Paul, Llanelli fel Ymddiriedolwr - cofnod presenoldeb o 100%.<br>• Roeddwn i'n bresennol yn yr ymgyngoriadau ynghylch Cyllideb y Cyngor gyda llawer ohonoch chi a seminar y Sir yn y Ffwrnes. O'r gwaith ymgynghori hwnnw rhannais eich barn a'i bwydo i'n cynigion Cyllideb - cofnod presenoldeb o 100%.<br>• Hefyd roeddwn yn bresennol mewn ymgyngoriadau a chyfarfodydd ynghylch newid gwastraff yn y dyfodol a Chymunedau Dysgu Cynaliadwy. Hefyd, yn fisol a phan fo angen, rwy'n ymgysylltu'n wythnosol â Heddlu Dyfed-Powys ynghylch y sefyllfa yn ymwneud â chyffuriau a throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein ward. Bellach mae gennym Gynllun Gweithredu Troseddau ac Anhrefn ar waith - cofnod presenoldeb o 100%.<br>• Cymerais ran mewn seminarau atal troseddau gyda Chomisiynydd Heddlu Dyfed-Powys a chyda'r Prif Arolygydd. |

| **Rhan 3: Cyrff Llywodraethu Ysgolion** | |
|---|---|
| ***Rhestr o Gyrff Llywodraethu Ysgolion*** | ***Cofnod Presenoldeb*** |
| | |
| Ysgol Gynradd Bigyn | 80% presenoldeb |
| Ysgol Gynradd Penrhos | 80% presenoldeb |
| | |

| **Rhan 4: Dysgu a Datblygu** |
|---|
| Rwyf wedi mynychu nifer o raglenni a chyrsiau hyfforddiant a drefnwyd gan y Cyngor yn dilyn etholiadau mis Mai 2022. |

| **Rhan 5: Gweithgareddau a Materion Eraill** |
|---|
| Rwy'n mynychu cyfarfodydd misol Cyngor Tref Llanelli a chyfarfodydd Cynllunio a Phriffyrdd. |

| | |
|---|---|
| **Llofnodwyd gan y Cynghorydd: Terry Davies** | **Dyddiad: 19/06/23** |